# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 7 Mawrth 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Stoc Dai

**C8 Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella'r stoc dai yng Nghymru? (OAQ16133)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Yr wyf wedi cynnwys cynlluniau amrywiol iawn yn y strategaeth dai genedlaethol. Yr oedd hyn yn cynnwys ein gweledigaeth o ran yr ansawdd yr ydym eisiau ei weld ar gyfer holl dai Cymru erbyn 2012. Mae hyn wedi'i gynnwys yn safon ansawdd tai Cymru.

### Setliad Llywodraeth Leol

**C9 Mick Bates:** Pa arian sydd wedi'i gynnwys yn setliad llywodraeth leol 2002-03 i fynd i'r afael â'r pwysau newydd sy'n deillio o bolisïau'r DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru? (OAQ16141)

**Edwina Hart:** Ychwanegwyd £78 miliwn at setliad llywodraeth leol 2002-03 er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ymdopi â beichiau newydd. Mae manylion y beichiau newydd dan sylw wedi'u rhoi yn Llyfrgell y Cynulliad.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**C10 Mick Bates:** Pa wersi y mae'r Gweinidog yn credu y dylid eu dysgu o'r sefyllfa bresennol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful? (OAQ16140)

**Edwina Hart:** Nid wyf eisiau sôn am y gwersi sydd i'w dysgu pan fo'r Uchel Llys ar fin ystyried yr amgylchiadau.

### Cwrdd â Chynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

**C11 Jonathan Morgan:** Pa gyfarfod y mae'r Gweinidog wedi'i gael gyda chynrychiolwyr o gynghorau cymuned a chynghorau tref yng Nghymru? (OAQ15482)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr etholedig ar bob lefel.

### Adfywiad mewn Ardaloedd Trefol yng Nghanol De Cymru

**C12 Jonathan Morgan:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo adfywiad mewn ardaloedd trefol yng Nghanol De Cymru? (OAQ15483)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn pryderu bod rhai ardaloedd yng Nghanol De Cymru yn dioddef o lefelau sylweddol o amddifadedd. Nod Rhoi Cymunedau yn Gyntaf yw lliniaru tlodi yn yr ardaloedd hyn drwy fynd ati i adfywio mewn partneriaeth. Dan y rhaglen, bydd partneriaethau Rhoi Cymunedau yn Gyntaf yn datblygu atebion lleol i broblemau lleol er mwyn eu helpu i adfywio eu hardaloedd eu hunain.

Ar ben hynny, mae cronfa adfywio lleol y Cynulliad yn darparu cefnogaeth i brosiectau adfywio yng Nghanol De Cymru. Mae'r Cynulliad hefyd yn cyllido ymddiriedolaethau *groundwork* ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo sy'n ymwneud yn frwd â phrosiectau adfywio yn yr ardal.

### Cyflwr Tai

**C13 Kirsty Williams:** Pa gymorth fydd y Gweinidog yn ei roi i awdurdodau lleol er mwyn gwella cyflwr tai yn eu hardaloedd? (OAQ16134)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cynyddu cyllidebau cyfalaf cyffredinol tai dros y tair blynedd nesaf a'r awdurdodau lleol sydd i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer defnyddio swmp yr adnoddau, gan gynnwys y £52 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn i'r awdurdodau lleol gynnal cynlluniau strategol yn 2002-03.

### Tlodi Plant

**C14 Helen Mary Jones:** Sut y mae'r Cynulliad yn mesur tlodi plant yng Nghymru? (OAQ16068)

**Edwina Hart:** Mesurir tlodi plant yng Nghymru drwy ddefnyddio set o ddangosyddion sy'n ymwneud â diweithdra, incwm isel, addysg, iechyd a thai, ac fe'i amlinellir yn adroddiad blynyddol Llywodraeth y DU, *'Opportunity for All'*.

Ar lefel fwy lleol, defnyddir y mynegai tlodi plant sef rhan o fynegai amddifadedd lluosog Cymru 2000, fel procsi ar gyfer tlodi plant gan nad oes llawer o ddata dibynadwy arall ar gael ar lefel rhanbarth etholiadol.

### Adfywiad mewn Ardaloedd Trefol yng Nghanol De Cymru

**C15 David Melding:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo adfywiad mewn ardaloedd trefol yng Nghanol De Cymru? (OAQ15485)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn pryderu bod rhai ardaloedd yng Nghanol De Cymru yn dioddef o lefelau sylweddol o amddifadedd. Nod Rhoi Cymunedau yn Gyntaf yw lliniaru tlodi yn yr ardaloedd hyn drwy fynd ati i adfywio mewn partneriaeth. Dan y rhaglen, bydd partneriaethau Rhoi Cymunedau yn Gyntaf yn datblygu atebion lleol i broblemau lleol er mwyn eu helpu i adfywio eu hardaloedd eu hunain.

Ar ben hynny, mae cronfa adfywio lleol y Cynulliad yn darparu cefnogaeth i brosiectau adfywio yng Nghanol De Cymru. Mae'r Cynulliad hefyd yn cyllido ymddiriedolaethau *groundwork* ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo sy'n ymwneud yn frwd â phrosiectau adfywio yn yr ardal.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Penderfyniadau Cynllunio yn ymwneud â Ffermydd Gwynt

**C3 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datganoli pob penderfyniad cynllunio sy'n ymwneud â ffermydd gwynt i'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ16110) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae Prif Weinidog Cymru yn cael cyfarfodydd rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac mae trosglwyddo swyddogaethau dan ddeddfwriaeth trydan yn un o'r nifer o faterion sy'n cael eu trafod ganddynt. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Adran Masnach a Diwydiant hefyd.

*Atebwyd cwestiynau 4 i 7 yn y Cyfarfod Llawn.*

**Llif Traffig ar yr A55**

**C8 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lif y traffig ar yr A55 yn Sir Fôn ers agor y ffordd newydd? (OAQ16103)

**Sue Essex:** Mae traffig wedi bod yn llifo'n rhwydd ar hyd yr A55 ar draws Ynys Môn ers cyhoeddi caniatâd defnyddio dan y contract cynllunio, adeiladu, cyllido a gweithredu ym mis Mawrth 2001. Agorwyd rhai rhannau o'r ffordd newydd yn gynt na'r dyddiad hwnnw. Mae cwblhau'r cynllun hwn wedi cwtogi yr amseroedd teithio i Gaergybi ac oddi yno'n sylweddol. Mae hefyd wedi lleihau'r llif traffig drwy bentrefi ar yr A5, gan wneud bywyd yn brafiach i'r cymunedau hynny.

**Adeiladau Hanesyddol**

**C9 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y Cynulliad o ran hyrwyddo adeiladau hanesyddol Cymru fel atyniadau i dwristiaid? (OAQ16094)

**Sue Essex:** Caiff henebion Cymru eu cydnabod yn gyfrwng gwerthu unigryw i ddenu twristiaid ac maent yn amlwg iawn yn neunyddiau cyhoeddusrwydd Bwrdd Croeso Cymru. Ychwanegir at hyn gan weithgareddau marchnata CADW ac ymdrechion y consortia marchnata lleol a rhanbarthol.

**Cynlluniau Datblygu Unedol**

**C10 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y cynlluniau datblygu unedol? (OAQ16108)

**Sue Essex:** Mae cynlluniau datblygu yn nodi polisïau awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal. Mae'n rhaid iddynt roi sylw i bolisïau ac arweiniad cenedlaethol a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae deddfwriaeth yn mynnu y dylai penderfyniadau cynllunio gyd-fynd â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau materol yn nodi fel arall.

**Ynni Adnewyddadwy a Chynaliadwy**

**C11 Dafydd Wigley:** Beth y mae’r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau y caiff digon o sylw ei roi i ynni adnewyddadwy a chynaliadwy, megis ffermio gwynt? (OAQ16101) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu diwydiant ynni adnewyddadwy ffyniannus yng Nghymru, gan gynnwys ynni'r gwynt. Mae polisi ynni glân yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at hyn. Mae 'Cymru’n Ennill', y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, yn ein hymrwymo i sicrhau'r polisïau economaidd cryfaf posibl, a'i phrif egwyddor o ran ynni glân yw ysgogi datblygiad pan fo hynny'n ddeniadol yn economaidd ac yn dderbyniol yn amgylcheddol.

Gyda golwg ar bolisïau a thargedau'r DU a'r byd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â pholisi ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae'r posibiliadau yng Nghymru o ran ffermydd gwynt allan yn y môr yn sylweddol ac yr ydym yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli. Yr ydym yn cymryd rhan yng nghamau nesaf adroddiad yr Uned Perfformiad ac Arloesi ar ynni 2050 a bydd adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar ynni yn ein cynorthwyo i gyfrannu at yr ymateb i hynny.

## Ceisiadau Cynllunio

**C12 Alun Cairns:** A oes gan y Gweinidog unrhyw fwriad i newid y canllawiau a ddarperir i awdurdodau lleol ynghylch ceisiadau cynllunio ar ddarnau o dir sydd yn destun ymchwiliad cyhoeddus dan broses y cynlluniau datblygu unedol? (OAQ16120)

**Sue Essex:** Ar hyn o bryd nid oes gennyf gynlluniau i newid yr arweiniad cynllunio ar hyn o beth. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol dderbyn ac ystyried cais cynllunio a gyflwynir boed ei gynllun datblygu unedol yn mynd drwy broses ymchwiliad cyhoeddus ai peidio. Wrth benderfynu ar gais cynllunio, mae adran 54(a) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn mynnu bod yn rhaid i'r penderfyniad gyd-fynd â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau materol eraill yn nodi fel arall. Gall cwestiynau ynghylch cynamseroldeb godi pan fydd cynllun datblygu'n cael ei baratoi ac mae'r cynigion wedi eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ond nad ydynt hyd hynny wedi cael eu mabwysiadu. Yr awdurdod cynllunio lleol sydd i ystyried a fyddai gwrthod ar sail cynamseroldeb yn briodol, er enghraifft, pan allai'r cynnig ragfarnu canlyniad y broses gynllunio yn ddifrifol drwy ragfynegi penderfyniad a ddylai gael ei wneud yng nghyd-destun y cynllun datblygu. Mae'r cam y mae cynllun wedi'i gyrraedd ym mhroses llunio'r cynllun yn gallu bod yn ffactor yn y penderfyniad hwn.

## Trafnidiaeth Gymunedol

**C13 Janet Davies:** A yw’r Gweinidog wedi awdurdodi canllawiau ar weithredu trafnidiaeth gymunedol? (OAQ16104)

**Sue Essex:** Nac ydw. Cyhoeddwyd arweiniad ar drafnidiaeth gymunedol yn gyffredinol. Mae arweiniad a gyhoeddwyd dan gynllun grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol y Cynulliad yn atgyfnerthu pwysigrwydd trafnidiaeth gymunedol, ac mae'n mynnu bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r sector i sicrhau ei fod fwyfwy yn y brif ffrwd ochr yn ochr â dulliau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus. Yr wyf yn darparu dros £300,000 dros dair blynedd i'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru er mwyn ei galluogi i ddatblygu ac ymestyn ei rhwydwaith ymgynghorol. Mae fforwm trafnidiaeth Cymru wedi sefydlu is-grwp sy'n archwilio'r ddarpariaeth o drafnidiaeth gymunedol yng Nghymru, a bydd y fforwm yn ystyried canfyddiadau'r grwp yn ei gyfarfod nesaf, ym mis Mehefin. Ar ôl hynny, byddaf fi a'r sefydliadau partner perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn ystyried pa gamau pellach y dylem eu cymryd i gryfhau swyddogaeth trafnidiaeth gymunedol yng Nghymru.

## Hawliau Mynediad i Dir Comin

**C14 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a fydd Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) Cymru 2001 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gwybodaeth glir ar yr amrywiol hawliau mynediad i wahanol ddosbarthiadau o dir comin? (OAQ16099)

**Sue Essex:** Mae prif swyddogaeth y ffora mynediad lleol wedi'i nodi yn adran 94(4) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Hynny yw, cynghori'r awdurdod priffyrdd lleol a/neu'r awdurdod parc cenedlaethol ar wella mynediad cyhoeddus i dir at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal. Nid oes ganddynt bwerau penodol i gynghori na rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn uniongyrchol.

Bydd yr hawl mynediad cyhoeddus newydd dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn berthnasol i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig yn unig, diffinnir y naill a'r llall yn adran 1 y Ddeddf ac maent yn cael eu mapio gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gyda golwg ar fathau eraill o dir comin, mae adran 15 y Ddeddf wedi ymestyn hawliau mynediad at ddibenion hamdden awyr agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, sef hawliau a oedd yn cael eu mwynhau gan drigolion y gymuned leol yn unig yn flaenorol. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y gwahaniaeth rhwng y gwahanol fathau o fynediad a sut y gallant eu mwynhau orau.

**Eglwysi o Ddiddordeb Hanesyddol**

**C15 David Melding:** Pa gamau sy’n cael eu cymryd i gefnogi eglwysi sydd o ddiddordeb hanesyddol yng Nghaerdydd? (OAQ16097)

**Sue Essex:** Mae grantiau'r Cynulliad ar gael ar gyfer atgyweiriadau hanesyddol i eglwysi sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, neu ar gyfer gwaith a fyddai'n gwella golwg ardal gadwraeth yn sylweddol. Mae gan y Cynulliad ddyletswydd i restru unrhyw adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig er mwyn sicrhau yr ystyrir ei gymeriad arbennig mewn unrhyw broses gynllunio, ac mae eglwysi yn rhan o'r arolwg sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.